

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans  
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522  
Dyddiad / Date: 1-09-21 E-bost / E-mail: CwestiwnECS@sirgar.gov.uk / QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Gobeithio eich bod chi a'ch teulu wedi llwyddo i gael seibiant dros yr wythnosau diwethaf ar ôl yr hyn a fu'n gyfnod heriol i bob un ohonom. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad, mae hyn wedi cael ei werthfawrogi'n fawr gan ein hysgolion.

Ysgrifennais atoch ar ddiwedd Tymor yr Haf yn amlinellu sut y byddai ein hysgolion yn gweithredu o fis Medi ymlaen. Roedd y wybodaeth yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd ar yr adeg honno. Ers hynny mae llawer o newidiadau wedi bod gyda Chymru yn symud i **Lefel Rhybudd 0** ar 7 Awst.

Mae'r dull gweithredu ar ôl gwyliau'r haf yn adlewyrchu'r cynnydd sy'n parhau i gael ei wneud o ran y rhaglen frechu. Erbyn diwedd mis Medi, bydd pawb sy'n gweithio yn ein system addysg wedi cael cynnig y ddau frechiad, a fydd yn ein hamddiffyn ymhellach rhag y feirws. Mae'r data cyfredol o ran cyfnodau yn yr ysbyty a salwch difrifol hefyd yn awgrymu, erbyn i ysgolion ddychwelyd ar ôl gwyliau'r haf, y gallwn symud y tu hwnt i'r dull caeth iawn o ddelio â COVID sydd wedi bod yn angenrheidiol hyd yma.

Bydd y newidiadau canlynol, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu gweithredu cyn gynted ag y gallwn-

- **Ar ddechrau'r tymor newydd, ni fyddwn mwyach yn argymhell bod staff neu ddysgwyr yn gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth.** Fodd bynnag, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am annog eu defnydd mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn ardaloedd cymunedol. Dylai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau barhau i wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gludiant ysgol pwrpasol. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni fydd hyn yn cael ei atal.
- **Rydym yn dal i ofyn i rieni wisgo gorchuddion wyneb** wrth ollwng neu gasglu plant o'r ysgol.
- **Ni fydd grwpiau cyswllt/swigod yn cael eu hargymhell mwyach.** Byddwn yn defnyddio ein system Profi, Olrhain a Diogelu er mwyn nodi cysylltiadau agos dysgwyr sydd wedi cael prawf positif. Fodd bynnag, efallai y bydd eich ysgol yn parhau gyda rhai arferion a ddatblygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwella gweithrediadau yn yr ysgol e.e. cadw rhai dosbarthiadau gyda'i gilydd fel unedau, manau mynediad dynodedig ac ardaloedd chwarae, amseroedd gwahanol o ran egwyl.
- **Bydd amseroedd sesiynau arferol yn ailddechrau**, ond efallai y bydd eich ysgol yn parhau gyda rhai arferion a ddatblygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwella gweithrediadau yn yr ysgol.
- **Anogir plant ysgolion uwchradd a'r gweithlu addysg i gynnal profion llif unffordd cyn dychwelyd i'r ysgol.**

Erbyn dechrau'r tymor bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r **Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 Lleol** y bydd angen i ni ei ymgorffori yn ein gweithrediadau yn ystod yr wythnosau sy'n dilyn. Bydd y fframwaith yn galluogi ysgolion i deilwra rhai o'r ymyriadau i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol. Ni fydd disgwyl i ysgolion a lleoliadau wneud y penderfyniadau hyn ar eu pennau eu hunain, byddant yn parhau i gael eu cefnogi gan swyddogion iechyd cyhoeddus a'u hawdurdodau lleol i sicrhau bod y mesurau'n briodol i'w hamgylchiadau.

Bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi am unrhyw drefniadau lleol pellach a byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau pellach. Ewch i'n gwefan [sirgar.llyw.cymru/addysg](http://sirgar.llyw.cymru/addysg) i gael y newyddion diweddaraf a dilynwch [@CarmsCouncil](https://www.facebook.com/CarmsCouncil) ar Facebook a Twitter.

Yn gywir/ Yours sincerely,

*Gareth Morgans*

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP  
Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English